Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JH/3432/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN
Mick.Antoniw@senedd.cymru

John Griffiths AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN
John.Griffiths@senedd.cymru

15 Hydref 2020

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr ar y cyd, dyddiedig 13 Hydref, mewn ymateb i'm llythyr dyddiedig 30 Medi, ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 3 Awst mewn perthynas â Bil Cam-drin Domestig Llywodraeth y DU ("y Bil").

Mae cynnydd y Mesur drwy Dŷ'r Arglwyddi yn cael ei ohirio, ac ni ddisgwylir i Ail Ddarlleniad yr Arglwyddi ddechrau tan fis Rhagfyr, gyda chamau dilynol y broses graffu Seneddol i ddilyn yn y Flwyddyn Newydd. O ganlyniad, mae'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn a oedd i gael ei chynnal ar 10 Tachwedd wedi'i gohirio.

Yn y cyfamser, mae fy swyddogion wrthi'n parhau i drafod gyda'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU ynglŷn â'n hymgais am welliannau i ddarpariaethau penodol yn y Bil. Byddaf yn ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am unrhyw gytundeb ar y materion hyn, gan fynd i'r afael â'r pwyntiau yn eich llythyr diweddaraf wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip